# Cyngor Adnewyddu'r Economi
# Prosiectau Seilwaith Mawr

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i ymestyn cwmpas y llif o brosiectau arfaethedig.

## Y Llif o Brosiectau Arfaethedig o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Un o swyddogaethau craidd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw gweithredu fel canolbwynt, gan ddarparu canolbwynt gwybodaeth cynhwysol, datblygu dealltwriaeth gyfannol o fuddsoddiad mewn seilwaith arfaethedig a pharhaus yn ogystal ag anghenion a chyfleoedd cysylltiedig ledled Cymru. Mae'r llif o brosiectau newydd o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn adnodd allweddol i sicrhau bod prosesau buddsoddi mewn seilwaith yn fwy amlwg ac eglur.

Ar hyn o bryd mae'r Llif o Brosiectau Arfaethedig yn adlewyrchu holl raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru sydd i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf, lle mae cyfanswm gwerth y cynllun yn fwy na £15m, gan gynnwys cynlluniau seilwaith mawr a ariennir yn rhannol gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop (dylid nodi ein bod yn pwyso'n galed i sicrhau bod seilwaith yn rhan bwysig o raglenni 2014-2020).

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau i lunio fersiynau diwygiedig o'r llif o brosiectau arfaethedig a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Cyhoeddir fersiwn wedi'i diweddaru o'r llif o brosiectau arfaethedig yn allanol ddwywaith y flwyddyn yn y gwanwyn a'r hydref. Ers cyhoeddi'r fersiwn gyntaf o'r llif o brosiectau arfaethedig o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ym mis Mai 2102 rydym wedi:

- cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru ym mis Tachwedd 2012
- a byddwn yn cyhoeddi Diweddariad y Gwanwyn ym mis Mehefin 2013

Dros y chwe mis diwethaf, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Leol, drwy Gymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC i ymestyn cwmpas y llif o brosiectau arfaethedig.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, bydd y llif o brosiectau arfaethedig o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a gyhoeddir ym mis Mehefin yn cynnwys, am y tro cyntaf, ddata buddsoddi mewn seilwaith allweddol ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru – sy'n cynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol (gweler y daflen crynhoi data atodedig sy'n rhoi darlun cynnar o'r data a gasglwyd).

I ddechrau, bydd y llif estynedig o brosiectau arfaethedig yn cynnwys data Awdurdodau Lleol sy'n cwmpasu cynlluniau a ddechreuwyd neu y disgwylir

iddynt ddechrau yn ystod y tair blynedd nesaf, gyda lefel trothwy o fwy na £2m.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn i ni wneud cynnydd tuag at greu darlun o fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Cymru gyfan. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ceisio gwella a mireinio systemau casglu data presennol gan gynnwys mwy o fanylion am strwythurau ariannu, megis cyfraniadau Cronfeydd Ewropeaidd, yn ogystal ag ymestyn y cwmpas ymhellach i gynnwys data'r sector preifat.

Mae angen pwysleisio'n gryf mai dyma'r cam cyntaf yn y broses o ymestyn y llif o brosiectau arfaethedig ac, er y bydd rhywfaint o orgyffwrdd â buddsoddiad Llywodraeth Cymru, byddwn yn ceisio mireinio'r dull gweithredu wrth i ni symud ymlaen. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu unrhyw fewnbwn gan Gyngor Adnewyddu'r Economi, yn arbennig o ran sut y gallwn barhau i ychwanegu gwerth at y llif o brosiectau arfaethedig, gan sicrhau ei fod yn rhoi mwy o wybodaeth i bartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Seilwaith Mawr yn y dyfodol neu roi cyngor arnynt.